

DATGANIAD POLISI YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

1.0 Cyflwyniad

Mae Tai Wales & West (WWH) yn cydnabod yr effaith negyddol a niweidiol y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol (YG) ei chael ar fywydau unigolion a chymunedau a'r gost iddyn nhw ac i WWH os na roddir sylw i hyn.

Ein diben yw creu cymdogaethau sy'n gweithio, lle y gall ein preswylwyr deimlo'n ddiogel a lle y gallant fod yn ddiogel, yn eu cartrefi a'u cymunedau. Mae'r diben hwn yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn gwybod sy'n bwysig i'n preswylwyr, ac mae'n sicrhau dull gweithredu cytbwys wrth fynd i'r afael ag YG a chael camau gweithredu sy'n gymesur â'r problemau.

Ein nod yw gweithio gyda'n preswylwyr i ddatrys materion, gan gynnig mwy o ddealltwriaeth o'r ffordd y byddwn yn rheoli adroddiadau am YG, a chan gynnig cyngor realistig am y dewisiadau sydd ar gael i ddatrys y broblem, a'r ffordd orau o fynd ati i wneud hyn.

Yn ogystal, byddwn yn ceisio darparu cymorth ar gyfer y rhai yr ystyrir bod eu hymddygiad yn wrthgymdeithasol, ac yn rhan fwyaf yr amgylchiadau, byddwn yn dihybyddu'r mesurau ataliol mwyaf perthnasol sydd ar gael er mwyn i ni allu darganfod datrysiad i'r broblem a chynorthwyo preswylwyr i gynnal eu tenantiaethau, gan greu cymunedau mwy cynaliadwy. Pan na fydd mesurau ataliol yn ffordd briodol o ddelio â'r problemau, neu os na fyddwn yn gallu darganfod datrysiad i'r broblem, byddwn yn ystyried cymryd camau gorfodi.

Mae YG yn amlygu ei hun mewn nifer o ffyrdd a phan na fydd modd i ni ddatrys y problemau ar ein pen ein hunain, byddwn yn cydweithio'n agos gydag asiantaethau perthnasol eraill, y gallent fod mewn sefyllfa well i ddelio â'r broblem, megis Diogelu'r Amgylchedd a'r Heddlu.

Yn unol â gofynion statudol, mae WWH wedi paratoi crynodeb ysgrifenedig ar wahân o'r polisi hwn, sydd ar gael o wneud cais amdano. Ceir gweithdrefn gynhwysfawr sy'n cyd-fynd â'r polisi hwn hefyd, sy'n cynnig arweiniad i staff rheng flaen sy'n delio ag YG. Mae crynodeb o'r Weithdrefn ar gael hefyd.

2.0 Diffiniad

Mae WWH yn diffinio ymddygiad gwrthgymdeithasol fel a ganlyn:

“unrhyw ymddygiad sy'n peri neu sy'n debygol o beri aflonyddwch, braw neu ofid i un unigolyn neu fwy nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd” ac “a gyflawnir gan breswilydd, unrhyw aelod o'u haelwyd neu ymwelydd â'u cartref sy'n cyflawni, sy'n bygwth cyflawni, sy'n cymryd rhan yn, neu'n meddu ar wybodaeth o, ac sy'n caniatáu i ymddygiad o'r fath ddigwydd”. (*Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998*)

Mae WWH wedi cydnabod bod ymddygiad a gweithgarwch yn ein cymunedau, y gallai gael ei ystyried fel ymddygiad gwrthgymdeithasol yn unol â'r diffiniad uchod, ac y gallai dorri amodau tenantiaeth hefyd, ond nad yw'n bodloni trothwy er mwyn canlyn ymyrraeth ffurfiol a chyfreithiol. O'r herwydd, mae WWH wedi mabwysiadu dull gweithredu lle y gallai cwynion gael eu hystyried yn rhai 'lefel isel neu risg isel', nad ydynt yn cael yr un faint o effaith ar y dioddefwyr a'r gymuned ehangach. Mae'r gwahaniaeth rhwng y 'graddau' ymddygiad hyn yn cyfrannu at y math o ymateb a'r camau sydd ar gael i ddatrys y materion hefyd.

3.0 Datganiad Polisi

Yn ychwanegol i'r polisi hwn, mae WWH wedi paratoi polisiau a gweithdrefnau mewn meysydd eraill, megis Troseddau Casineb ac Ymddygiad Gwahaniaethol; Cam-drin Domestig; Cymorth i Ddioddefwyr a Thystion; a Diogelu. Yn yr holl achosion hyn, byddwn yn:

- Ceisio pennu unrhyw achos sylfaenol dros yr YG a chymryd camau priodol i fynd i'r afael ag ef.
- Delio mewn ffordd mor gyflym ac effeithiol ag y bo modd gyda'r unigolion hynny sy'n dangos ymddygiad gwrthgymdeithasol a phan fo tystiolaeth ar gael i gynorthwyo'r gweithredu bwriadedig.
- Nodi'n glir i breswylwyr eu cyfrifoldeb personol dros eu gweithredoedd, gweithredoedd aelodau eu haelwyd ac ymwelwyr â'u cartref.
- Mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr a chynnig cymorth i ddioddefwyr, yn ogystal ag ystyried atgyfeiriadau Diogelu
- Disgwyl i'r holl staff o fewn Grŵp Tai Wales & West i adrodd unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelu i'w rheolwr llinell cyn gynted ag y byddant yn gallu gwneud hynny.
- Siarad gyda'r achwynydd a chytuno ar y camau y mae pob parti yn bwriadu eu cymryd.
- Ceisio cydweithrediad achwynwyr a nodi'n glir bod diffyg tystiolaeth yn cyfyngu ar unrhyw gamau y mae modd eu cymryd.
- Sicrhau bod preswylwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd ac unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd.

- Dangos yr effaith y mae eu hymddygiad yn ei chael, a'r goblygiadau ar ddiogelwch eu tenantiaeth.
- Gweithio gyda phreswylwyr i'w cynorthwyo i ddiwygio eu hymddygiad pan fyddant o ddifrif ynghylch gwneud newidiadau cadarnhaol i'w hymddygiad.
- Mabwysiadu dull gweithredu unigol tuag at gynorthwyo unigolyn i newid eu hymddygiad, oni bai bod y sefyllfa yn ddifrifol iawn neu wedi bod yn digwydd dros gyfnod estynedig.
- Gweithio gyda phartneriaid partneriaethau diogelwch cymunedol i ddarparu cymorth neu i gynorthwyo wrth weithredu i roi sylw i ymddygiad unigolyn yn ôl yr angen.
- Delio mewn ffordd briodol gyda chwynion maleisus, naill ai fel unigolion neu dan amodau eu cytundeb tenantiaeth.

4.0 Mesurau Ataliol

Byddwn yn ceisio nodi a rhoi sylw i faterion cymorth unigolion er mwyn eu cynorthwyo i newid eu hymddygiad. Byddwn yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol gyda phartneriaid megis Gwasanaethau Cymdeithasol, gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol, yr Heddlu a Thimau Troseddau Ieuencid er mwyn sicrhau bod cyflawnwyr yn cael yr holl gyngor neu gymorth y mae ei angen arnynt i newid eu hymddygiad ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol pellach rhag digwydd.

Os cydnabyddir bod angen cymorth ar denant i gynnal eu tenantiaeth, bydd WWH yn ceisio cydweithio'n agos â'r preswlydd ac asiantaethau cymorth i hwyluso'r cam o sefydlu mecanweithiau.

Mae ymrwymiad WWH i fynd i'r afael ag YG yn sicrhau, pan fo hynny'n briodol, bod yr holl gamau posibl wedi cael eu cymryd cyn canlyn datrysiadau cyfreithiol. Mae nifer o fesurau ar gael i'w hystyried, a chan ddibynnu ar yr amgylchiadau, ystyrir y rhai mwyaf perthnasol:

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:-

- Atgyfnerthu amodau unrhyw gytundeb tenantiaeth neu les.
- Dulliau adferol.
- Atgyfeiriadau i asiantaethau cymorth.
- Ymgymeriadau.
- Contractau Ymddygiad Derbyniol.

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth a gellir ystyried dewisiadau eraill pan fo hynny'n briodol.

5.0 Cymryd Camau Cyfreithiol Effeithiol

Mae amrediad o offerynnau cyfreithiol yn bodoli ac ar gael i WWH er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, a byddwn yn defnyddio datrysiadau

cyfreithiol sy'n briodol ac sy'n angenrheidiol yn ôl graddfa'r ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwaharddebau Sifil
- Tenantiaeth Isradd
- Achosion Cymryd Meddiant

Yn ogystal, efallai y byddwn yn ystyried mesurau cyfreithiol eraill sydd ar gael i'n hasiantaethau partner, a phan fydd gofyn i ni wneud hynny, byddwn yn cydweithio'n agos gyda nhw i gyflawni ein nodau.

6.0 Cymorth a Hyfforddiant Arbenigol

Bydd WWH yn gweithio i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o ddiffiniad ymddygiad gwrthgymdeithasol, yr ymddygiad na chaiff ei oddef, a derbyn cyfrifoldeb ar y cyd wrth roi sylw i gwynion ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cynhelir hyfforddiant ar gyfer y staff er mwyn rhoi'r sgiliau a'r hyder digonol iddynt i roi cyngor priodol i breswylwyr mewn amrediad o feysydd megis Cam-drin Domestig (CD); lechyd Meddwl; addasiadau rhesymol; a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Partneriaethau Amlasiantaethol

Fel landlord cymdeithasol cofrestredig, mae'r camau y gall WWH eu cymryd er mwyn delio ag YG mewn perthynas â'r cytundeb tenantiaeth, deddfwriaeth ac adferiadau sifil yn gyfyngedig. Gellir ystyried dull amlasiantaethol wrth fynd i'r afael â chwynion ynghylch YG, er mwyn sicrhau y defnyddir amrediad llawn a helaeth yr offerynnau sydd ar gael i asiantaethau partner yn y partneriaethau diogelwch cymunedol, er mwyn sicrhau datrysiad cyflym ac effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gall WWH fynd i'r afael ag YG ar draws pob deiliadaeth (landlordiaid eraill a pherchen-feddiannwyr) trwy ein cyswllt â phartneriaethau amlasiantaethol a thrwy rannu gwybodaeth. Pan fo hynny'n briodol, bydd WWH yn defnyddio ei phwerau gorfodi ei hun i gymryd camau yn erbyn unigolion nad ydynt yn breswylwyr WWH o reidrwydd.

8.0 Cyfrinachedd

Bydd WWH yn sicrhau y caiff data personol ei reoli mewn ffordd gywir, a bod gwybodaeth a ddatgelir i ni gan achwynwyr yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Rhennir cyngor ynghylch pryd a sut y caiff datgelu gwybodaeth i bartïon eraill, eu cynrychiolwyr cyfreithiol neu bartïon eraill sydd â diddordeb, ei rhannu ar ddechrau unrhyw ymchwiliad. Cyflawnir unrhyw gamau i ddatgelu data personol yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data (DPA) 1998 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UE) 2016/679 (GDPR) a Deddf Hawliau Dynol 1998.

Elfen allweddol o'n gwaith effeithiol gyda'n hasiantaethau partner wrth fynd i'r afael ag YG mewn ffordd effeithiol, yw rhannu gwybodaeth. Rydym yn rhannu gwybodaeth gyda'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Awdurdodau Lleol yr ydym yn gweithredu yn eu hardaloedd. Ystyrir pob datgeliad fesul achos.

9.0 Cyhoeddi'r Polisi

Cyhoeddir y polisi hwn i breswylwyr ac asiantaethau partner. Mae WWH yn ceisio diffinio ei dull gweithredu wrth ddelio ag YG, y cymorth a'r camau y gall dioddefwyr eu disgwyl a'r canlyniadau i'r rhai sy'n parhau i gyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ffordd glir. Cyflawnir hyn trwy gynnwys erthyglau yn y cylchgrawn i breswylwyr, trwy gynnwys gwybodaeth ar ein gwefan a thrwy fynychu digwyddiadau hyrwyddo.

10.0 Materion Cymunedol

Mae WWH yn sicrhau bod cyswllt rheolaidd a ffurfiol gyda phartneriaethau amlasiantaethol yn digwydd ar lefel strategol a chaiff hyn ei gyfleu i staff a phreswylwyr ar lefel leol mewn ffordd glir. Anogir a chynorthwyr preswylwyr i ffurfio cysylltiadau gyda darparwyr gwasanaeth eraill er mwyn sicrhau datrysiadau go iawn i YG sy'n effeithio ar eu cymuned.

Mae WWH yn cydnabod bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei ddiffinio, ac y caiff ei effaith ei ddehongli a'i flaenoriaethu mewn ffordd wahanol ym mhob cymuned. Bydd blaenoriaethau cymunedau lleol yn dylanwadu ar ymateb WWH ym mhob ardal.

11.0 Cwynion

Mae gweithdrefn gwyno WWH ar gael i unrhyw un sy'n teimlo nas rhoddwyd sylw digonol i'w hadroddiad ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ar ôl dilyn y weithdrefn hon yn llawn, os bydd y preswilydd yn anfodlon o hyd, mae croeso iddynt gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; neu'r awdurdod lleol gyda chais i weithredu'r Sbardun Cymunedol. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y Sbardun Cymunedol ar wefan Llywodraeth Cymru.

12.0 Monitro, Cofnodi ac Adolygu

Mae WWH yn cydweithio'n agos gyda Phartneriaethau Lleihau Trosedd ac Anrhefn er mwyn monitro a gwerthuso math, amllder a phatrymau YG mewn cymunedau.

Cynhelir adolygiadau rheolaidd a chyfnodol o'r polisi YG yn unol ag unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth neu systemau o fewn WWA.

13.0 Goblygiadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn. Mae WWH yn rhoi ystyriaeth briodol i'r nodau ac amcanion a nodir yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys yr angen mewn amgylchiadau priodol i drin unigolion sydd ag anabledd mewn ffordd fwy ffafriol nag unigolion nad oes ganddynt anabledd, a rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i waredu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waharddir gan y Ddeddf; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath; a meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath. Bydd ymyrraeth gynnar yn allweddol er mwyn darganfod datrysiadau parhaol lle y mae achosion YG yn effeithio ar ansawdd bywyd yn ein cymunedau a chaiff camau effeithiol eu cymryd yn erbyn y rhai sy'n gweithredu mewn ffordd sy'n mynd yn groes i nodau'r polisi hwn. Mae WWH yn ceisio sicrhau bod yr holl staff rheng flaen yn cael hyfforddiant llawn am Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'u bod yn cael hyfforddiant parhaus am newidiadau deddfwriaethol wrth iddynt ddigwydd.

14.0 Ymgysylltu â Phreswylwyr

Bydd y polisi a'r dull gweithredu wrth reoli YG yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i breswylwyr. Pennir yr hyn sy'n bwysig i breswylwyr trwy ymgysylltu mewn ffordd agos gyda phreswylwyr wrth y pwynt lle y darparir gwasanaeth. Bydd hyn yn rhan ganolog o unrhyw adolygiad er mwyn ailgynllunio prosesau gwaith a chaiff ei gyflawni dan drefniant parhaus hefyd trwy ymgysylltu gyda'r preswylwyr sy'n ymwneud â'r system yn barhaus, er mwyn deall yn llawn yr hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd perfformiad yn gysylltiedig ag ac yn seiliedig ar yr hyn y profir ei fod yn bwysig i breswylwyr.

15.0 Goblygiadau Cyfreithiol

Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd yn llawn gyda'r goblygiadau a weithredwyd gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003;
- Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998;
- Deddf Plant 1989, A27;
- Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UE) 2016/670 (GDPR);
- Deddf Anabledd a Gwahaniaethu 1995;
- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Deddf Digartrefedd 2002;
- Deddf Tai 1996;
- Deddf Hawliau Dynol 1998;
- Deddf Trosedd a Phlisma 2014;
- Deddf Llywodraeth Leol 2000;

- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, A71.

Caiff camau eu cymryd yn unol â phwerau deddfwriaethol cyfredol. Bydd ymyrraeth gynnar yn allweddol er mwyn darganfod datrysiadau parhaus lle y mae achosion YG yn effeithio ar ansawdd bywyd yn ein cymunedau a chaiff camau effeithiol eu cymryd yn erbyn y rhai sy'n gweithredu mewn ffordd sy'n mynd yn groes i nodau'r polisi hwn.

16.0 Goblygiadau Ariannol

Bydd WWH yn ceisio datrys achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, bydd gofyn cael cymorth cyfreithiol proffesiynol ar gyfer achosion cymhleth neu'r rhai lle y bydd gofyn cael cynrychiolaeth gyfreithiol.

17.0 Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Cynghorir yr holl staff sy'n ymchwilio i achosion YG i ystyried yr holl risgiau cysylltiad wrth gynnal yr ymchwiliad. Mae diogelu ein staff yn hollbwysig ac rydym yn ystyried ein cyfrifoldebau yn y maes hwn o ddifrif.

18.0 Goblygiadau ar gyfer yr Iaith Gymraeg

Cynorthwyr unrhyw unigolyn sy'n dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg.

19.0 Adolygu

Adolygir y datganiad polisi hwn yn rheolaidd ac fe'i adolygwyd ddiwethaf ym mis Mawrth 2022.